**Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Paneli Maethu a Chynllunio Gofal (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2026**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan yr Adran Iechyd, Gofal Cymdeithasol a'r Blynyddoedd Cynnar ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.

## Datganiad y Gweinidog

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Paneli Maethu a Chynllunio Gofal (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2026. Rwyf wedi fy modloni bod y manteision yn cyfiawnhau'r costau tebygol.

**Dawn Bowden AS**
**Y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol**

27 Ionawr 2026

**RHAN 1**

**1. Disgrifiad**

1.1 Mae Rheoliadau Paneli Maethu a Chynllunio Gofal (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2026 ("Rheoliadau 2026") yn diwygio Rheoliadau Cynllunio Gofal, Lleoli ac Adolygu Achosion (Cymru) 2015 (“Rheoliadau 2015”) a Rheoliadau Paneli Maethu (Sefydlu a Swyddogaethau) (Cymru) 2018 (“Rheoliadau 2018”).

1.2 Mae Rheoliadau 2015 yn gwneud darpariaeth ynghylch cynllunio gofal ar gyfer plant sy’n derbyn gofal, a materion cysylltiedig eraill. Mae Rheoliadau 2018 yn gosod gofynion ar ddarparwyr gwasanaethau maethu mewn perthynas â sefydlu paneli maethu a’u swyddogaethau, ac mewn perthynas ag asesu darpar ofalwyr maeth.

1.3 Mae Rheoliadau 2026 yn gwneud y newidiadau canlynol i Reoliadau 2018:

<u>Diffiniad o aelodau aelwyd</u>:

- Erbyn hyn mae'n cynnwys unrhyw berson sy'n byw yn yr aelwyd, pa un ai o dan leoliad gan yr awdurdod lleol neu o dan drefniant arall.

<u>Asesu darpar ofalwyr maeth</u>:

- Mae'r broses wedi'i diweddaru i adlewyrchu gofynion newydd, yn enwedig i'r rhai sy'n berthnasau, yn ffrindiau, neu'n bersonau cysylltiedig.

<u>Rhannu gwybodaeth</u>:

- Mae darpariaeth newydd (rheoliad 10A) yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr gwasanaethau maethu rannu gwybodaeth â'i gilydd er mwyn helpu i wneud penderfyniadau gwell.

<u>Diweddariadau i Atodlen 1</u>:

- Mae Rhan 3 newydd wedi'i hychwanegu, sy'n nodi'r wybodaeth benodol sydd ei hangen wrth asesu darpar ofalwr maeth sy'n berson cysylltiedig (fel perthynas, ffrind neu rywun sydd â pherthynas sy'n bodoli eisoes â'r plentyn).

1.4 Mae Rheoliadau 2026 yn gwneud y newidiadau canlynol i Reoliadau 2015:

<u>Lleoliad gyda phersonau cysylltiedig</u>:

- Rhaid i ymweliadau â phlant yn y lleoliadau hyn ddigwydd o leiaf unwaith bob 6 mis.
- Rhaid i adolygiadau o'r lleoliadau hyn ddigwydd o leiaf unwaith bob 12 mis.

1.5 Mae'r newidiadau hyn yn ymwneud â lleoliadau sy'n cael eu gwneud o dan adran 81(6)(a) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)

2014, sy'n rhoi blaenoriaeth i leoli plant gyda pherthnasau, ffrindiau neu bersonau eraill sy'n gysylltiedig â nhw.

**2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad**

2.1 Dim.

**3. Y cefndir deddfwriaethol**

3.1 Gwneir y Rheoliadau hyn gan Weinidogion Cymru o dan bwerau a roddir gan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Cânt eu gwneud o dan weithdrefn annilysu'r Senedd.

**4 Diben y ddeddfwriaeth a’r effaith y bwriedir iddi ei chael**

**Diwygiadau i Reoliadau Paneli Maethu (Sefydlu a Swyddogaethau) (Cymru) 2018**

<u>Trosglwyddiadau Gofalwyr Maeth</u>

4.1 Pan fydd gofalwr maeth yn trosglwyddo o un darparwr i'r llall, gall heriau godi ynghylch faint o wybodaeth a ddatgelir gan y darparwr gofal maeth blaenorol, prydlondeb trosglwyddo'r wybodaeth hon, a'r arfer mewn rhai achosion o osod ffioedd ar y gwasanaeth maethu newydd am gael gafael ar yr wybodaeth hon. Er mwyn diogelu plant a phobl ifanc mewn gofal maeth yn well, bydd Rheoliadau 2026 yn gwella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y broses. Bydd y newidiadau hyn yn dod ag elfennau o'r canllawiau arfer da a nodir o fewn Protocol Trosglwyddo Gofalwyr Maeth Cymru[1] o fewn fframwaith deddfwriaethol. Bydd hyn yn gwneud y canlynol:

- Sicrhau bod modd rhannu cofnodion allweddol yn amserol ac yn gyson pan fydd gofalwr maeth yn symud rhwng darparwyr gwasanaethau maethu.
- Sicrhau nad oes unrhyw ffioedd yn cael eu codi am drosglwyddo gwybodaeth.
- Diogelu darparwyr rhag torri cyfreithiau diogelu data (e.e. GDPR) trwy gynnwys mesurau diogelu priodol yn y rheoliadau.

4.2 Mae'r gwelliannau allweddol a gyflwynir gan Reoliadau 2026 yn cynnwys y canlynol:

- Rhwymedigaeth statudol i'r darparwr blaenorol rannu dogfennau allweddol (e.e. adroddiadau asesu, cofnodion adolygiadau) o fewn 15 diwrnod gwaith i gais ysgrifenedig.
- Mynediad am ddim i'r cofnodion hyn ar gyfer y darparwr sy'n eu cael.

[1] protocol-trosglwyddo-gofalwyr-maeth-cymru-cymraeg.pdf

- Dileu dibyniaeth ar gydymffurfiaeth wirfoddol.
- Gwella mesurau diogelu trwy sicrhau bod gan y rhai sy'n gwneud penderfyniadau fynediad at wybodaeth lawn ac amserol.

4.4 Mae'r unigolion neu'r grwpiau sy'n cael eu heffeithio yn cynnwys y canlynol:

- Gofalwyr maeth sy'n trosglwyddo rhwng darparwyr.
- Darparwyr gwasanaethau maethu (awdurdod lleol ac annibynnol).
- Plant a phobl ifanc mewn gofal maeth mewn achosion lle mae oedi neu fylchau mewn gwybodaeth yn gallu effeithio ar eu lleoliadau.
- Aelodau paneli a phenderfynwyr sy'n dibynnu ar gofnodion cywir i asesu addasrwydd a pharhad.

4.5 Gall methu â gweithredu'r newidiadau deddfwriaethol arfaethedig arwain at y risgiau canlynol:

- Anghysondeb ac oedi parhaus wrth rannu gwybodaeth.
- Risgiau diogelu posibl oherwydd cofnodion anghyflawn neu gofnodion sydd wedi dyddio.
- Rhwystrau ariannol i ddarparwyr oherwydd ffioedd.
- Llai o hyder yn y system ymhlith gofalwyr maeth a gweithwyr proffesiynol.

4.6. Disgwylir i'r newidiadau deddfwriaethol arfaethedig sicrhau'r gwelliannau effeithlonrwydd canlynol:

- Symleiddio'r broses drosglwyddo, gan leihau baich gweinyddol.
- Sicrhau mynediad prydlon at gofnodion hanfodol, gan hwyluso penderfyniadau cyflymach.
- Lleihau dyblygu asesiadau ac oedi diangen mewn parhad lleoliadau.

4.7 Mae effeithiau posibl y newidiadau deddfwriaethol ar grwpiau dan anfantais neu grwpiau wedi'u hymyleiddio yn cynnwys:

- Canlyniadau gwell i blant a phobl ifanc mewn gofal, yn enwedig y rhai sy'n cael eu heffeithio gan newidiadau mewn lleoliadau.
- Cymorth i ofalwyr maeth, gan gynnwys y rhai o gefndiroedd heb gynrychiolaeth ddigonol, trwy ddileu rhwystrau i newid darparwyr.

4.8 Mae'r ddeddfwriaeth yn gymwys ledled Cymru, gan effeithio ar bob darparwr gwasanaeth maethu sy'n gweithredu o dan reoliadau Cymru.

<u>Diwygio Asesiadau Gofalwyr Maeth sy'n Berthnasau</u>

4.9 Nod Llywodraeth Cymru yw creu fframwaith mwy hyblyg, sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, ar gyfer asesu a chymeradwyo gofalwyr maeth sy'n berthnasau, gan gydnabod natur unigryw gofal gan berthynas. Bydd Rheoliadau 2026 yn gwneud y canlynol:

- Sefydlu categori penodol o ofalwr maeth sy'n berthynas yn y rheoliadau maethu.

- Cyflwyno Rhan 3 newydd yn Atodlen 1 o'r Rheoliadau, wedi'i theilwra i amgylchiadau penodol gofal gan berthynas.
- Galluogi paneli maethu a phenderfynwyr i arfer disgresiwn a chrebwyll cyd-destunol wrth asesu addasrwydd.

4.10 O dan y fframwaith presennol, mae gofalwr sy'n berthynas yn cael ei asesu yn unol â'r un safon â gofalwr maeth prif ffrwd, er gwaethaf y ffeithiau canlynol:

- Yn aml, mae gofalwr sy'n berthynas yn camu i'r rôl yn ystod argyfwng teuluol.
- Bydd gan y gofalwr berthynas sy'n bodoli eisoes â'r plentyn.
- Mae'n wynebu disgwyliadau afrealistig o'i gymharu â gofalwyr prif ffrwd sy'n cynllunio ac yn paratoi ar gyfer maethu. Mae hyn wedi arwain at straen, oedi, ac asesiadau amhriodol nad ydynt yn adlewyrchu realiti gofal gan berthynas.

4.11 Bydd Rheoliadau 2026 yn gwneud y canlynol:

- Cyflwyno llwybr asesu pwrpasol ar gyfer gofalwr sy'n berthynas (Rhannau 1 a 3 o Atodlen 1).
- Caniatáu i baneli ystyried dynameg teulu, ymwneud blaenorol ag awdurdodau lleol, ac anghenion penodol y plentyn.
- Cynnal statws a chefnogaeth gofalwr maeth sy'n berthynas wrth leihau biwrocratiaeth ddiangen.
- Sicrhau cysondeb â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, gan hyrwyddo dull gweithredu dan arweiniad person.

4.12 Bydd y newidiadau deddfwriaethol yn effeithio ar y rhanddeiliaid a'r meysydd canlynol:

- Gofalwyr maeth sy'n berthnasau, a fydd yn elwa ar broses asesu fwy priodol a chefnogol.
- Plant a phobl ifanc, a fydd yn elwa ar leoliadau mwy sefydlog gyda gofalwyr cyfarwydd.
- Paneli a phenderfynwyr maethu, a fydd yn elwa ar eglurder a hyblygrwydd wrth gymhwyso meini prawf addasrwydd.
- Awdurdodau lleol a gwasanaethau maethu, a fydd yn gweithredu o dan fframwaith cliriach a mwy effeithlon.

4.13 Mae canlyniadau posibl peidio â chyflwyno'r ddeddfwriaeth arfaethedig yn cynnwys y canlynol:

- Diffyg aliniad parhaus rhwng polisi ac ymarfer.
- Oedi neu fethiannau mewn lleoliadau gofal gan berthynas oherwydd meini prawf asesu anaddas.
- Darpar ofalwyr maeth sy'n berthnasau yn ymddieithrio oherwydd prosesau beichus.
- Methu cyfleoedd i ddarparu gofal sefydlog mewn teulu i blant sy'n derbyn gofal.

4.14 Mae'r manteision effeithlonrwydd a ragwelir oherwydd y diwygiadau deddfwriaethol arfaethedig yn cynnwys:

- Llai o ddyblygu a meini prawf asesu amherthnasol.
- Hwyluso cymorth ac ymyrraeth a dargedir, yn seiliedig ar anghenion gwirioneddol teuluoedd.
- Gwella'r broses o wneud penderfyniadau trwy ganolbwyntio ar y berthynas rhwng y plentyn a'r gofalwr yn hytrach na safonau cyffredinol.

4.15 Gall y newidiadau deddfwriaethol gael yr effeithiau canlynol ar grwpiau dan anfantais neu grwpiau sydd wedi'u heithrio:

- Canlyniadau gwell i blant mewn gofal, yn enwedig plant sydd wedi'u lleoli gyda theulu estynedig.
- Cymorth i ofalwyr sy'n berthnasau, a allai wynebu heriau economaidd-gymdeithasol a diffyg hyfforddiant ffurfiol.
- Hyrwyddo tegwch trwy gydnabod natur unigryw gofal gan berthynas a lleihau rhwystrau systemig.

4.16 Mae'r ddeddfwriaeth yn gymwys ledled Cymru, gan effeithio ar bob darparwr gwasanaeth maethu sy'n gweithredu o dan gyfraith Cymru.

**Diwygiadau i Reoliadau Cynllunio Gofal, Lleoli ac Adolygu Achosion (Cymru) 2015**

<u>Adolygiadau ac Ymweliadau Hyblyg ar gyfer Gofalwyr Maeth sy'n Berthnasau</u>

4.17 Mae Llywodraeth Cymru yn ceisio cyflwyno mwy o hyblygrwydd yn y gofynion statudol ar gyfer adolygiadau achosion ac ymweliadau gwaith cymdeithasol ar gyfer plant sydd â gofalwyr maeth cymeradwy sy'n berthnasau. Bydd Rheoliadau 2026 yn gwneud y canlynol:

- Caniatáu amserlenni adolygu ac ymweld wedi'u teilwra sy'n seiliedig ar anghenion unigol y plentyn a'r teulu.
- Sicrhau bod goruchwyliaeth annibynnol yn parhau i fod ar waith trwy rôl y Swyddog Adolygu Annibynnol.
- Hyrwyddo dull gweithredu sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

4.18 Mae'r rheoliadau cyfredol yn gosod cyfnodau adolygu ac ymweld unffurf ar gyfer pob lleoliad maeth, waeth beth fo'r cyd-destun. O ganlyniad:

- Mae'n methu ag adlewyrchu'r sefydlogrwydd a'r teimlad cyfarwydd sy'n nodwedd o ofal gan berthynas yn aml.
- Mae'n teimlo'n ymwthiol neu'n anghymesur i deuluoedd sydd â lefelau isel o angen.
- Mae'n rhoi straen diangen ar ofalwyr a gweithwyr proffesiynol, yn enwedig mewn trefniadau gofal gan berthynas hirdymor.

4.19 Mae'r gwelliannau allweddol a ragwelir o ganlyniad i'r newidiadau deddfwriaethol yn cynnwys y canlynol:

- Bydd modd caniatáu hyd at 12 mis (yn hytrach na 6 mis) rhwng adolygiadau dilynol, gyda'r amseriad yn cael ei benderfynu yn ystod yr adolygiad ei hun.
- Bydd modd caniatáu hyd at 6 mis rhwng ymweliadau, gyda'r bwlch yn cael ei benderfynu ar y cyd gan yr awdurdod cyfrifol, y Swyddog Adolygu Annibynnol, gofalwyr, rhieni, a'r plentyn.
- Bydd yn cynnal hyblygrwydd i leihau'r bwlch lle bo angen, gan sicrhau bod modd ymateb i achosion cymhleth.
- Bydd yn lleihau baich gweinyddol ond yn cadw goruchwyliaeth ddiogelu.

4.20 Mae rhanddeiliaid sy'n debygol o gael eu heffeithio gan y diwygiadau deddfwriaethol arfaethedig yn cynnwys y canlynol:

- Gofalwyr maeth sy'n berthnasau, a fydd yn elwa ar fframwaith mwy cymesur a chefnogol.
- Plant a phobl ifanc, a allai deimlo'n fwy cyfforddus mewn sefyllfa lle mae llai o oruchwyliaeth ffurfiol mewn lleoliadau sefydlog.
- Awdurdodau lleol a gweithwyr cymdeithasol, a fydd yn gallu rheoli llwythi gwaith a theilwra cymorth yn fwy hyblyg.
- Swyddogion Adolygu Annibynnol, a fydd yn chwarae rhan allweddol yn y gwaith o benderfynu amserlenni adolygu ac ymweld priodol.

4.21 Gallai diffyg diwygio deddfwriaethol arwain at y risgiau posibl canlynol:

- Parhau i gymhwyso dull gweithredu 'un ateb sy'n addas i bawb' a allai danseilio effeithiolrwydd lleoliadau gofal gan berthynas.
- Y posibilrwydd y bydd gofalwyr sy'n berthnasau yn ymddieithrio gan gredu bod gormod o reoleiddio ar waith.
- Methu cyfleoedd i symleiddio gwasanaethau a chanolbwyntio adnoddau lle mae eu hangen fwyaf.

4.22 Disgwylir i'r newidiadau deddfwriaethol arfaethedig sicrhau'r manteision effeithlonrwydd canlynol:

- Lleihau adolygiadau ac ymweliadau diangen mewn lleoliadau sefydlog risg isel.
- Galluogi ymyrraeth wedi'i thargedu mewn achosion mwy cymhleth.
- Helpu i ddyrannu adnoddau ar draws timau gofal cymdeithasol yn well.

4.23 Gall y newid deddfwriaethol arfaethedig effeithio ar grwpiau dan anfantais neu grwpiau sydd wedi'u heithrio yn y ffyrdd canlynol:

- Gwella canlyniadau i blant sy'n derbyn gofal gan berthynas (mae llawer ohonynt yn dod o gefndiroedd dan anfantais).
- Cymorth i deuluoedd sy'n camu i'r adwy yn ystod argyfwng, yn aml heb gyfle i baratoi neu hyfforddiant ffurfiol.

- Hyrwyddo tegwch trwy gydnabod natur unigryw gofal gan berthynas a lleihau rhwystrau systemig.

4.24 Mae'r ddeddfwriaeth yn gymwys ledled Cymru, gan effeithio ar bob awdurdod lleol a darparwr gwasanaeth maethu sy'n gweithredu o dan gyfraith Cymru.

## 5. Ymgynghoriad

5.1 Cynhaliwyd ymgynghoriad 12 wythnos ar y newidiadau arfaethedig rhwng 4 Awst 2025 a 27 Hydref 2025. Hysbyswyd llawer o randdeiliaid allweddol am yr ymgynghoriad gan gynnwys awdurdodau lleol, sefydliadau'r trydydd sector, darparwyr maethu annibynnol, darparwyr maethu'r trydydd sector, a gofalwyr maeth.

5.2 Cafwyd cytundeb cyffredinol i'r cynigion yn yr ymgynghoriad. Gwnaed un mân newid o ganlyniad i'r ymatebion - cynnwys cyfeiriad at gyflogaeth flaenorol o fewn Rhan 3 newydd o Atodlen 1 i Reoliadau 2018.

5.3 Mae dogfennau'r ymgynghoriad a chrynodeb o'r ymatebion ar gael yma

## RHAN 2 – ASESIAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL

## 6. Opsiynau

### Diwygiadau i Reoliadau Paneli Maethu (Sefydlu a Swyddogaethau) (Cymru) 2018

Trosglwyddiadau Gofalwyr Maeth

6.1 Mae dau opsiwn wedi'u hystyried wrth ddadansoddi'r costau, y manteision a'r risgiau o gyflwyno newidiadau i'r broses ar gyfer trosglwyddo gofalwyr maeth yng Nghymru:

- Opsiwn 1: Gwneud Dim – parhau i ddibynnu ar Brotocol Trosglwyddo anstatudol Cymru

- Opsiwn 2: Diwygio Rheoliadau Paneli Maethu (Sefydlu a Swyddogaethau) (Cymru) 2018

### Opsiwn 1: Gwneud Dim

6.2 Byddai'r opsiwn hwn yn parhau â'r ddibyniaeth bresennol ar Brotocol Trosglwyddo Cymru, sy'n anstatudol ac na ellir ei orfodi. Er bod y Protocol hwn yn hyrwyddo arfer dda, nid yw'n cael ei gymhwyso'n gyson ar draws darparwyr gwasanaethau maethu.

### Costau

6.3 Er na fydd yr opsiwn hwn yn cyflwyno costau ychwanegol yn uniongyrchol, gall darparwyr gwasanaethau maethu fynd i gostau diangen sy'n gysylltiedig â dyblygu gwaith gweinyddol, oedi gyda lleoliadau, a'r posibilrwydd o golli gofalwyr maeth. Mae'r costau hyn yn debygol o amrywio'n sylweddol rhwng darparwyr. O ganlyniad, mae'n anodd eu meintioli felly nid ydynt wedi'u cynnwys yn y dadansoddiad o gostau.

### Manteision

6.4 Prif fantais yr opsiwn hwn yw'r ffaith ei fod yn osgoi unrhyw darfu ar systemau a phrosesau presennol a'r angen am hyfforddiant ychwanegol neu waith i godi ymwybyddiaeth.

### Risgiau

6.5 Un o'r prif risgiau sy'n gysylltiedig â'r opsiwn hwn yw anghysondeb o ran ymarfer rhwng darparwyr. Mae cydymffurfiaeth wirfoddol â'r protocol yn arwain at amrywioldeb ac yn tanseilio tegwch a chysondeb.

6.6 Mae pryderon diogelu yn parhau i fod yn risg sylweddol os oes oedi wrth rannu gwybodaeth hanfodol neu os nad yw gwybodaeth o’r fath cael ei rhannu. Mae asesiadau anghyflawn yn gallu effeithio ar y broses o wneud penderfyniadau a chynyddu'r tebygolrwydd o niwed i blant, gan danseilio diben craidd gwasanaethau maethu.

6.7 Mae aneffeithlonrwydd gweithredol hefyd yn codi pan nad yw gwybodaeth yn cael ei rhannu'n brydlon. Mae asesiadau dyblyg ac oedi i'r broses gymeradwyo yn creu beichiau gweinyddol diangen, gan ddargyfeirio adnoddau pwysig oddi wrth wasanaethau rheng flaen a lleihau effeithiolrwydd cyffredinol y system.

6.8 Mae arferion gwael wrth drosglwyddo gwybodaeth yn arwain at oblygiadau ariannol hefyd. Mae lleoliadau brys a gofalwyr yn gadael yn sgil profiadau trosglwyddo negyddol yn arwain at gostau uwch i awdurdodau lleol, gan roi straen ychwanegol ar gyllidebau sydd eisoes o dan bwysau.

6.9 Mae lleihad mewn symudedd gofalwyr a’r lleihad mewn cyfraddau cadw gofalwyr yn gwaethygu’r heriau hyn. Heb brosesau gorfodadwy i gefnogi trosglwyddiadau effeithiol, mae'n bosibl na fydd gofalwyr yn awyddus i drosglwyddo rhwng darparwyr. Bydd hyn yn cyfyngu ar hyblygrwydd ac yn cyfrannu at gyfraddau gadael oddi mewn i'r gweithlu maethu.

6.10 Yn olaf, mae yna berygl y bydd cadw'r *status quo* yn arwain at golli cyfleoedd i wella'r system. Trwy fethu â moderneiddio a symleiddio prosesau, mae'n bosibl y bydd ymdrechion i greu system faethu fwy effeithlon, tryloyw ac ymatebol yng Nghymru yn cael eu llesteirio, gan effeithio ar ganlyniadau i blant a gofalwyr yn y pen draw.

**Opsiwn 2: Diwygio Rheoliadau Paneli Maethu (Sefydlu a Swyddogaethau) (Cymru) 2018)** (Yr opsiwn a ffefrir)

6.11 Mae'r opsiwn hwn yn ymgorffori elfennau allweddol o'r Protocol Trosglwyddo yn y gyfraith. Drwy ddiwygio Rheoliadau Paneli Maethu (Sefydlu a Swyddogaethau) (Cymru) 2018, gall Llywodraeth Cymru ei gwneud yn ofyniad cyfreithiol i ddarparwyr maeth yng Nghymru rannu cofnodion perthnasol pan fydd gofalwr maeth yn trosglwyddo, yn amodol ar gydsyniad y gofalwr a heb unrhyw gost i'r darparwr gwasanaeth maethu.

**Costau**

6.12 Er mwyn sicrhau bod darparwyr gwasanaethau maethu yn gallu cydymffurfio'n llawn â'r gofynion newydd, bydd angen cyhoeddi canllawiau, gan gynnwys cyngor arbenigol ar gyfreithiau GDPR, er mwyn diogelu'r rhai sy'n rhannu unrhyw wybodaeth. Rhagwelir y byddai'n costio hyd at £10,000 i Lywodraeth Cymru i gomisiynu arbenigwr perthnasol i greu'r canllawiau hyn. Hefyd, byddai angen diweddaru'r canllawiau presennol i randdeiliaid ar Reoliadau 2018 er mwyn adlewyrchu'r gofynion newydd. Byddai hyn yn costio £3,960 i Lywodraeth Cymru. Byddai'r costau hyn yn cael eu hysgwyddo ym mlwyddyn

ariannol 2026-27. Hefyd, mae'n bosibl y bydd costau cyfle i ddarparwyr gwasanaethau maethu a fydd yn gorfod adolygu a deall y canllawiau newydd. Er bod yr effaith ariannol ar ddarparwyr yn gyfyngedig, y cyfaddawd yw dargyfeirio capasiti staff cyfyngedig, a allai fel arall helpu i wella gwasanaethau neu fentrau strategol.

6.13 Trwy ei gwneud yn ofyniad rheoleiddiol i ddarparwyr maethu sydd wedi'u cofrestru yng Nghymru rannu gwybodaeth yn ddi-dâl ac mewn modd amserol, disgwylir arbedion cost sylweddol i awdurdodau lleol. Er ei bod yn anodd meintioli ffigurau manwl gywir, mae'r amcangyfrifon canlynol yn darparu ystod ddangosol:

- **Rhannu Gwybodaeth**:
  Ar hyn o bryd mae rhai asiantaethau maethu annibynnol yn codi hyd at **£1,000** am rannu gwybodaeth. Os yw'r gofyniad hwn yn dileu ffioedd o'r fath, gallai'r arbediad fesul trosglwyddiad gofalwr maeth fod rhwng **£500-£1,000**.

  Ar sail trosglwyddiad bras o 15 gofalwr y flwyddyn, gallai'r arbediad blynyddol amrywio o **£7,500 i £15,000**. Er bod hyn yn cynrychioli arbediad cost i Awdurdodau Lleol neu asiantaethau maethu annibynnol, mae yna ostyngiad cyfatebol mewn refeniw i'r sefydliadau hynny a fyddai wedi codi tâl am rannu gwybodaeth o'r blaen.

- **Lleihad mewn Costau Asesu**:
  Pan fo'r asesiad llawn o ofalwr maeth ar gael fel mater o drefn, ni fyddai aseswyr ond yn gorfod darparu diweddariad yn hytrach na chwblhau asesiad llawn o'r dechrau. Fel arfer, mae comisiynu asesiad llawn yn costio **£2,000-£3,000**. Gallai mynediad at wybodaeth bresennol arwain at ostyngiad o **£1,000-£1,500** yn y gost hon fesul gofalwr. Amcangyfrif o Gyfanswm yr Arbedion fesul Gofalwr:
  Rhwng **£1,500 a £2,500**.

  Ar sail trosglwyddiad bras o 15 gofalwr y flwyddyn, gallai'r arbediad blynyddol amrywio o **£22,500 i £37,500**.

## Manteision

6.14 Mae'r opsiwn hwn yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr gwasanaethau maethu yng Nghymru rannu cofnodion o fewn 15 diwrnod gwaith, heb unrhyw gost. Bydd hyn yn sicrhau mynediad amserol at wybodaeth diogelu ac asesu hanfodol, gan leihau oedi a baich gweinyddol. Hefyd, bydd yn dileu rhwystrau ariannol a allai atal trosglwyddiadau neu greu annhegwch rhwng darparwyr.

6.15 Bydd yr opsiwn hwn hefyd yn egluro'r sail gyfreithlon ar gyfer rhannu data gyda chydsyniad, sy'n gallu creu problemau i ddarparwyr gwasanaethau ar hyn o bryd. Bydd y diwygiadau yn cynnwys geiriad i gynorthwyo cydymffurfiaeth â GDPR y DU a Deddf Diogelu Data 2018, gan ei gwneud yn

glir bod yn rhaid cael cydsyniad y gofalwr a chydymffurfio ag egwyddorion diogelu data cyn rhannu unrhyw wybodaeth.

6.16 Mae trosglwyddo gwybodaeth yn amserol ac yn gyflawn yn helpu plant i gael eu lleoli'n ddiogel ac yn briodol ac yn caniatáu i ofalwyr maeth symud rhwng darparwyr heb darfu neu ailasesu diangen.

6.17 Mae ymgorffori'r darpariaethau hyn mewn deddfwriaeth yn sicrhau bod pob darparwr yn gweithredu o dan yr un disgwyliadau, gan wella ymddiriedaeth, cydweithredu ac atebolrwydd ar draws y sector.

6.18 Mae'r opsiwn hwn yn gwella mesurau diogelu, gan leihau'r risg o niwed a gwella'r broses o baru lleoliadau.

6.19 Trwy gynorthwyo symudedd gofalwyr, bydd modd cadw mwy o ofalwyr a lleihau costau recriwtio, gan helpu i sefydlogi'r gweithlu. Yn ogystal, mae sicrhau cysondeb ledled y system yn darparu effeithlonrwydd hirdymor a mwy o ymddiriedaeth, gan greu amgylchedd maethu mwy dibynadwy a chydweithredol sydd o fudd i ofalwyr, plant ac awdurdodau lleol.

**Risgiau**

6.20 Heriau Gweithredu

Mae newid deddfwriaethol yn broses gymhleth sy'n gofyn am lawer o amser, gwaith cydlynu ac ymgysylltu â rhanddeiliaid lluosog. Mae drafftio darpariaethau newydd, cynnal ymgynghoriadau, a sicrhau cymeradwyaeth yn gallu cymryd llawer o amser ac arwain at oedi. Gallai unrhyw anawsterau yn ystod y camau hyn ohirio'r manteision arfaethedig a chreu ansicrwydd i ddarparwyr sy'n paratoi i gydymffurfio.

6.21 Amrywiad o ran Parodrwydd rhwng Darparwyr

Mae gallu darparwyr i addasu i ofynion newydd yn amrywio. Er y gallai rhai gwasanaethau maethu fod wedi paratoi'n dda, mae'n bosibl y bydd eraill yn cael trafferth oherwydd diffyg adnoddau, heriau staffio, neu fylchau gweithdrefnol presennol. Gall yr amrywiad hwn arwain at anghysondeb o ran cydymffurfiaeth a phroblemau trosglwyddo, a gallai hyn effeithio ar gysondeb gofal i blant a theuluoedd.

6.22 Camddehongli Diogelu Data

Er gwaethaf canllawiau clir, mae risg y bydd darparwyr yn camddehongli deddfwriaeth diogelu data neu'n gweithredu'n rhy ofalus. Gall camddefnydd o'r fath arwain at oedi diangen neu wrthodiad i rannu cofnodion hanfodol, gan danseilio amcanion y newid deddfwriaethol. Bydd sicrhau eglurder a hyder mewn rhannu data cyfreithlon yn hanfodol er mwyn osgoi'r rhwystrau hyn.

6.23 Gwrthwynebiad i Newid

Gall rhai darparwyr wrthwynebu rhwymedigaethau statudol newydd, yn enwedig os ydynt yn credu bod y newidiadau hyn yn cyfyngu ar eu hymreolaeth neu'n cynyddu eu llwyth gwaith gweinyddol. Gallai

gwrthwynebiad gael ei fynegi gan oedi cyn gweithredu neu gydymffurfio i'r graddau lleiaf posibl, gan arwain at yr angen am ymgysylltu rhagweithiol a phrosesau cyfathrebu clir i fynd i'r afael â phryderon a sicrhau cydweithrediad.

6.24 Canlyniadau Anfwriadol
Os na reolir y broses weithredu yn ofalus, gallai'r newidiadau gael y canlyniad anfwriadol o wneud darparwyr yn gyndyn o dderbyn gofalwyr sy'n trosglwyddo. Gall canfyddiadau o lefelau uwch o gymhlethdod, atebolrwydd neu faich gweinyddol arwain at amharodrwydd, gan danseilio manteision arfaethedig y polisi. Er mwyn lliniaru'r risgiau hyn, bydd angen arweiniad clir, prosesau symlach, a chymorth parhaus.

Diwygio Asesiadau o Ofalwyr Maeth sy'n Berthnasau

6.25 Mae dau opsiwn wedi'u hystyried wrth ddadansoddi'r costau, y manteision a'r risgiau o gyflwyno newidiadau i'r broses o asesu gofalwyr maeth sy'n berthnasau yng Nghymru:

- Opsiwn 1: Gwneud Dim – cadw'r fframwaith cyfreithiol presennol

- Opsiwn 2: Diwygio Rheoliadau Paneli Maethu (Sefydlu a Swyddogaethau) (Cymru) 2018

**Opsiwn 1: Gwneud Dim (Cadw'r Fframwaith Presennol)**

6.26 O dan yr opsiwn hwn, ni fydd unrhyw ddiwygiadau'n cael eu gwneud i'r rheoliadau presennol. Bydd yr un meini prawf yn cael eu defnyddio i asesu gofalwyr maeth sy'n berthnasau â'r rhai a ddefnyddir i asesu gofalwyr maeth prif ffrwd o dan Rannau 1 a 2 o Atodlen 1 i Reoliadau 2018.

**Costau**

6.27 Nid oes unrhyw gostau ychwanegol yn gysylltiedig â'r opsiwn hwn. Bydd y dull presennol o asesu gofalwyr maeth sy'n berthnasau yn parhau trwy ddefnyddio adnoddau presennol a heb yr angen am gyllid, seilwaith neu staff newydd.

**Manteision**

6.28 Mae'r dull gweithredu hwn yn sicrhau nad oes unrhyw darfu ar systemau na hyfforddiant presennol, ac mae'n sicrhau cysondeb â'r fframwaith rheoleiddio presennol. Trwy gadw prosesau sefydledig a sicrhau cysondeb â rheoliadau presennol, mae'n hwyluso dull gweithredu effeithlon ac yn lleihau'r angen am adnoddau ychwanegol neu ailhyfforddi.

**Risgiau**

6.29 Mae'r fframwaith presennol yn anghyson â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, sy'n hyrwyddo gofal cymesur sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae'r anghysondeb hwn yn tanseilio amcanion

polisi yn ehangach ac yn cyfyngu ar gynnydd tuag at system fwy ymatebol a modern.

6.30 Ar hyn o bryd, mae asesiadau maethu prif ffrwd llawn yn cael eu cwblhau ar gyfer gofalwyr sy'n berthnasau. Mae'r asesiadau hyn yn gallu bod yn rhy ymwthiol a rhoi pobl dan ormod o straen, yn enwedig yn ystod sefyllfaoedd argyfwng. Gall y dull gweithredu hwn wneud aelodau o'r teulu yn gyndyn o ymgymryd â'r rôl, gan leihau'r opsiynau sydd ar gael i leoli plant.

6.31 Mae oedi neu gymeradwyaeth anaddas yn gallu arwain at leoliadau'n methu, gan gynyddu'r risg y bydd plant yn mynd i mewn i leoliadau gofal preswyl mwy costus a llai sefydlog. Yn ogystal ag effeithio ar lesiant plant, mae hyn yn rhoi straen ychwanegol ar gyllidebau awdurdodau lleol.

6.32 Mae paneli maethu ac aseswyr maethu yn treulio llawer o amser yn cymhwyso meini prawf nad ydynt yn berthnasol o reidrwydd i ofal gan berthynas. Mae hyn yn lleihau effeithlonrwydd cyffredinol y system ac yn gohirio penderfyniadau, gan ddargyfeirio adnoddau o achosion sydd angen goruchwyliaeth fwy dwys.

6.33 Mae'n bosibl y bydd teuluoedd o dan anfantais yn gyndyn o fod yn ofalwyr sy'n berthynas oherwydd cymhlethdod a natur ymwthiol y broses bresennol. Mae hyn yn cyfyngu ar opsiynau lleoli ac yn cynyddu dibyniaeth ar ofal maeth prif ffrwd, nad yw'n ateb addas i'r plentyn bob tro.

6.34 Mae methiant lleoliadau a'r angen i recriwtio a hyfforddi gofalwyr newydd yn arwain at gostau sylweddol i awdurdodau lleol. Gellid osgoi'r treuliau hyn trwy ddefnyddio fframwaith asesu mwy cymesur a phwrpasol sy'n cefnogi sefydlogrwydd ac yn helpu i gadw gofalwyr.

**Opsiwn 2: Diwygio Rheoliadau Paneli Maethu (Sefydlu a Swyddogaethau) (Cymru) (2018)** (Yr opsiwn a ffefrir)

6.35 O dan yr opsiwn hwn, bydd Rheoliadau Gwasanaethau Maethu (Cymru) 2018 yn cael eu diwygio er mwyn cydnabod gofalwyr maeth sy'n berthnasau yn ffurfiol fel categori ar wahân. Mae'r newidiadau arfaethedig yn cynnwys:

- Creu categori newydd ar gyfer gofalwyr maeth sy'n berthnasau yn benodol.
- Cyflwyno Rhan 3 newydd yn Atodlen 1 gyda meini prawf asesu wedi'u teilwra sy'n adlewyrchu natur unigryw trefniadau gofal gan berthynas.
- Caniatáu i baneli maethu a phenderfynwyr ddefnyddio disgresiwn ar sail y berthynas sy'n bodoli eisoes rhwng y plentyn a'r gofalwr.

6.36 Nod y newidiadau hyn yw gwella addasrwydd, sefydlogrwydd ac effeithlonrwydd lleoliadau gofal gan berthynas, yn ogystal â sicrhau eglurder cyfreithiol a hyrwyddo tegwch.

**Costau**

6.37 Bydd angen cynnal gweithgareddau rhannu gwybodaeth a chodi ymwybyddiaeth er mwyn cefnogi'r broses o roi'r opsiwn hwn ar waith. Bydd hyn yn cynnwys diweddaru deunyddiau canllawiau presennol, deunydd cyfathrebu â rhanddeiliaid, a hyfforddiant wedi'i dargedu er mwyn sicrhau bod awdurdodau lleol, asiantaethau maethu, a gofalwyr yn deall y categori newydd a'i oblygiadau. Amcangyfrifir y bydd y gweithgareddau hyn yn costio £9,900 i Lywodraeth Cymru yn ystod blwyddyn ariannol 2026-27. Mae'r gweithgareddau yn cynnwys 6 sesiwn ar-lein i godi ymwybyddiaeth rhanddeiliaid yn ystod 2026-27. Hefyd, bydd costau cyfle i randdeiliaid yn ymwneud â phresenoldeb staff yn y sesiynau hyfforddi. Er nad oes unrhyw effaith ariannol uniongyrchol, y cyfaddawd yw dargyfeirio capasiti staff cyfyngedig, a allai fel arall helpu i wella gwasanaethau neu fentrau strategol.

**Manteision**

6.38 Mae cyflwyno asesiadau cymesur a pherthnasol ar gyfer gofalwyr sy'n berthnasau yn sicrhau bod y broses yn adlewyrchu amgylchiadau unigryw gofal teuluol. Mae'r dull gweithredu hwn yn lleihau cymhlethdod a straen diangen, yn enwedig yn ystod sefyllfaoedd brys neu argyfwng.

6.39 Mae proses fwy cefnogol a llai beichus yn annog teuluoedd i gamu ymlaen i fod yn ofalwyr sy'n berthnasau. Mae hyn yn gwella parhad i blant ac yn lleihau costau recriwtio trwy gadw gofalwyr profiadol o fewn y system.

6.40 Mae symleiddio'r broses o asesu gofal gan berthynas yn rhyddhau amser paneli maethu a gweithwyr cymdeithasol, gan sicrhau bod modd defnyddio adnoddau ar gyfer achosion â blaenoriaeth uwch a gwella effeithlonrwydd gweithredol yn gyffredinol.

6.41 Mae fframwaith asesu cymesur yn gwella cymorth i deuluoedd dan anfantais trwy ddileu rhwystrau sy'n eu hatal rhag bod yn ofalwr sy'n berthynas ar hyn o bryd. Mae'r dull gweithredu hwn yn cyd-fynd ag egwyddorion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, gan hyrwyddo tegwch a hygyrchedd i bob teulu.

6.42 Mae lleoliadau cyflymach a mwy priodol gyda gofalwyr cyfarwydd yn gwella diogelwch emosiynol a chanlyniadau datblygiadol i blant, gan sicrhau sefydlogrwydd a pharhad yn eu trefniadau gofal.

6.43 Mae darparu sail statudol ar gyfer asesiadau gofal gan berthynas yn lleihau amwysedd ac anghysondeb ar draws awdurdodau lleol, gan sicrhau cydymffurfiaeth a meithrin hyder yn y broses.

**Risgiau**

6.44 Mae'n bosibl na fydd pob gwasanaeth maethu yn gallu addasu'n brydlon i'r gofynion newydd, a allai arwain at gymhwyso a throsglwyddo anghyson ar draws y sector yn y tymor byr.

6.45 Bydd angen canllawiau clir a chefnogaeth ar baneli ac aseswyr er mwyn cymhwyso'r meini prawf newydd yn gyson. Heb hyfforddiant digonol, mae risg o ddryswch ac amrywioldeb mewn asesiadau yn ystod y cyfnod pontio.

6.46 Er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth gyson a gwerthuso effaith y categori newydd, bydd angen goruchwyliaeth barhaus, a allai roi straen ychwanegol ar gyrff rheoleiddio ac adnoddau.

6.47 Os nad yw meini prawf pwrpasol yn cael eu cynllunio'n ofalus, mae'n bosibl y byddant yn eithrio rhai gofalwyr yn anfwriadol neu'n creu dryswch ynghylch cymhwystra, gan danseilio manteision arfaethedig y diwygio.

**Rheoliadau Cynllunio Gofal, Lleoli ac Adolygu Achosion (Cymru) 2015**

<u>Adolygiadau ac Ymweliadau Hyblyg ar gyfer Gofalwyr Maeth sy'n Berthnasau</u>

6.48 Mae dau opsiwn wedi'u hystyried wrth ddadansoddi'r costau, y manteision a'r risgiau o ran cyflwyno newidiadau i adolygiadau ac ymweliadau ar gyfer gofalwyr maeth sy'n berthnasau yng Nghymru:

- Opsiwn 1: Gwneud Dim – cadw'r fframwaith cyfreithiol presennol

- Opsiwn 2: Diwygio Rheoliadau Cynllunio Gofal, Lleoli ac Adolygu Achosion (Cymru) 2015

**Opsiwn 1: Gwneud Dim (Cadw'r Fframwaith Presennol)**

6.49 Mae'r opsiwn hwn yn cadw'r darpariaethau presennol o dan Reoliadau Cynllunio Gofal, Lleoli ac Adolygu Achosion (Cymru) 2015, sy'n golygu bod gofalwyr maeth sy'n berthnasau yn parhau i fod yn destun yr un amserlen adolygu ac ymweliadau statudol â gofalwyr maeth prif ffrwd. Ni fyddai unrhyw newidiadau deddfwriaethol neu weithdrefnol yn cael eu cyflwyno.

**Costau**

6.50 Nid oes unrhyw gostau ychwanegol yn gysylltiedig â'r opsiwn hwn. Bydd yr amserlen bresennol o adolygiadau ac ymweliadau yn parhau i gael ei gweithredu gan ddefnyddio adnoddau presennol, ac ni fydd angen cyllid, seilwaith neu staff newydd.

**Manteision**

6.51 Ni fydd yr opsiwn hwn yn arwain at unrhyw newidiadau i ddeddfwriaeth nac ymarfer, sy'n golygu na fydd unrhyw faich ariannol neu weinyddol ychwanegol i ddarparwyr neu awdurdodau lleol.

6.52 Mae cadw'r fframwaith presennol yn sicrhau bod y lefelau presennol o oruchwyliaeth statudol yn parhau i fod ar waith, gan ddarparu prosesau monitro a diogelu cyson ar gyfer pob lleoliad maeth.

6.53 Mae cymhwyso gofynion statudol yn unffurf ar gyfer pob math o ofal maeth, gan gynnwys trefniadau gofal gan berthynas, yn hyrwyddo eglurder a sefydlogrwydd yn y system.

**Risgiau**

6.54 Mae'r fframwaith presennol yn cymhwyso dull unffurf nad yw'n adlewyrchu natur deuluol, a natur fwy sefydlog yn aml, lleoliadau gofal gan berthynas. Mae'r diffyg hyblygrwydd hwn yn gallu arwain at oruchwyliaeth ddiangen o drefniadau sy'n peri risg fach iawn.

6.55 Mae'n bosibl y bydd gofalwyr sy'n berthnasau yn teimlo bod gormod o bobl yn craffu arnynt oherwydd adolygiadau ac ymweliadau statudol cyson, yn enwedig mewn trefniadau hirdymor a risg isel. Mae hyn yn gallu achosi straen ac anfodlonrwydd, gan danseilio sefydlogrwydd lleoliad o bosibl.

6.56 Mae'n ofynnol i weithwyr cymdeithasol a Swyddogion Adolygu Annibynnol ymgymryd â thasgau goruchwyliaeth sy'n ddiangen ar gyfer lleoliadau gofal gan berthynas sefydlog. Mae hyn yn dargyfeirio adnoddau o achosion ag angen uwch ac yn cyfrannu at straen yn y gweithlu.

6.57 Mae gormod o fonitro yn gallu gwneud i ofalwyr sy'n berthnasau deimlo eu bod wedi'u llethu neu eu tanbrisio, gan gynyddu'r tebygolrwydd o darfu ar leoliadau a throsglwyddo i ofal preswyl, sy'n broses gostus.

6.58 Mae goruchwyliaeth ffurfiol gyson yn gallu arwain at deimladau o stigma neu anhapusrwydd ymhlith plant hŷn, gan effeithio o bosibl ar eu llesiant emosiynol a'u hymdeimlad o normalrwydd yn y teulu.

6.59 Gall pwysau parhaus i gynnal ymweliadau statudol ar gyfer achosion risg isel gyfrannu at ddiffygiad ymhlith gweithwyr cymdeithasol. Mae costau recriwtio i ddisodli staff yn ychwanegu mwy o straen ariannol i'r system.

6.60 Mae cadw'r *status quo* yn gohirio'r cyfle i foderneiddio'r fframwaith rheoleiddio yn unol ag egwyddorion gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a'r ddealltwriaeth sy'n datblygu o ddynameg gofal gan berthynas.

**Opsiwn 2: Diwygio Rheoliadau Cynllunio Gofal, Lleoli ac Adolygu Achosion (Cymru) 2015** (Yr opsiwn a ffefrir)

6.61 Mae'r opsiwn hwn yn cynnig diwygio **rheoliadau 31 a 39** o Reoliadau Cynllunio Gofal, Lleoli ac Adolygu Achosion (Cymru) 2015 i gyflwyno mwy o hyblygrwydd wrth oruchwylio gofal maeth gan berthynas. Byddai'n gwneud y canlynol yn benodol:

- Sicrhau bod modd caniatáu blwch o hyd at 12 mis cyn adolygiadau dilynol, gyda'r amseriad yn cael ei benderfynu yn ystod yr adolygiad ei hun.
- Caniatáu hyd at 6 mis rhwng ymweliadau, yn seiliedig ar benderfyniadau ar y cyd sy'n cynnwys y Swyddog Adolygu Annibynnol, gofalwyr, rhieni, a'r plentyn.

6.62 Nod y newidiadau hyn yw teilwra goruchwyliaeth yn unol ag anghenion gwirioneddol y plentyn a'r teulu, a chynnal safonau diogelu.

**Costau**

6.63 Bydd angen cynnal gweithgareddau rhannu gwybodaeth a chodi ymwybyddiaeth er mwyn helpu i roi'r opsiwn hwn ar waith. Bydd hyn yn cynnwys datblygu deunyddiau canllaw, darparu gwybodaeth i randdeiliaid, ac ymgysylltu’n bwrpasol er mwyn sicrhau bod awdurdodau lleol, asiantaethau maethu, a gofalwyr yn deall y categori newydd a'i oblygiadau. Amcangyfrifir y bydd y gweithgareddau hyn yn costio £9,900 i Lywodraeth Cymru yn 2026-27, sy'n cynnwys costau cynhyrchu a lledaenu nodyn ymarfer a chwe sesiwn codi ymwybyddiaeth ar-lein. Hefyd, byddai costau cyfle i sefydliadau rhanddeiliaid yn ymwneud â phresenoldeb staff yn y sesiynau hyfforddi. Er bod yr effaith ariannol wedi'i chyfyngu, y cyfaddawd yw dargyfeirio capasiti staff cyfyngedig, a allai fel arall helpu i wella gwasanaethau neu fentrau strategol.

**Manteision**

6.64 Mae prosesau goruchwylio llai ymwthiol yn helpu i gefnogi llesiant emosiynol plant a meithrin ymdeimlad o normalrwydd mewn trefniadau gofal gan berthynas. Mae'r dull gweithredu hwn yn lleihau straen diangen ac yn hyrwyddo sefydlogrwydd mewn lleoliadau teuluol.

6.65 Drwy leihau'r baich biwrocrataidd, mae'r opsiwn hwn yn hyrwyddo trefniadau gofal gan berthynas hirdymor. Mae prosesau symlach yn ei gwneud hi'n haws i ofalwyr gynnal lleoliadau heb deimlo eu bod wedi'u llethu gan ofynion gweinyddol.

6.66 Bydd Swyddogion Adolygu Annibynnol yn gallu parhau i argymell adolygiadau neu ymweliadau amlach lle bo angen, gan sicrhau bod safonau diogelu yn parhau i fod yn gadarn ac yn ymatebol i anghenion unigol.

6.67 Drwy ddarparu sail statudol ar gyfer goruchwyliaeth hyblyg sy'n seiliedig ar anghenion ac yn berthnasol i gyd-destunau gofal gan berthynas, bydd modd lleihau amwysedd a hyrwyddo cysondeb ar draws awdurdodau lleol.

**Risgiau**

6.68 Gall diffiniadau o'r hyn sy'n gyfystyr â lleoliad "sefydlog" a chyfnodau adolygu priodol amrywio rhwng awdurdodau lleol, gan greu risg o gymhwyso ac arferion anghyson.

6.69 Bydd angen canllawiau clir a hyfforddiant cynhwysfawr ar ymarferwyr er mwyn gallu cymhwyso'r fframwaith newydd yn effeithiol. Heb gymorth digonol, mae risg o ddryswch ac amrywioldeb yn ystod y cyfnod trosglwyddo.

6.70 Gallai lleihau amlder ymweliadau ac adolygiadau arwain at fethu arwyddion rhybudd cynnar os nad yw'r broses yn cael ei monitro'n ofalus, yn enwedig mewn lleoliadau sy'n ymddangos yn sefydlog ond sydd â phroblemau sylfaenol. Fodd bynnag, bydd Swyddogion Adolygu Annibynnol yn parhau i oruchwylio lleoliadau unigol a bod yn gyfrifol am argymell y dylai awdurdodau lleol ymgymryd ag adolygiadau ac ymweliadau amlach lle bo angen.

6.71 Gall awdurdodau lleol wynebu heriau o ran diweddaru systemau a llifoedd gwaith er mwyn bodloni'r gofynion newydd, yn enwedig os yw seilwaith digidol neu gapasiti staffio yn gyfyngedig.

6.72 Bydd angen mecanweithiau monitro a gwerthuso cadarn er mwyn cymhwyso unrhyw newidiadau yn gyson a mesur eu heffaith yn gywir. Gallai'r gofynion ychwanegol hyn roi pwysau sylweddol ar gyrff rheoleiddio, yn enwedig os oes angen iddynt gydweithio'n agosach er mwyn cynnal safonau a rhannu cyfrifoldeb am oruchwylio.

## 7. Asesiad Cystadleuaeth

7.1 Mae asesiad cystadleuaeth o'r diwygiadau arfaethedig i Reoliadau Paneli Maethu (Sefydlu a Swyddogaethau) (Cymru) 2018 a Rheoliadau Cynllunio Gofal, Lleoli ac Adolygu Achosion (Cymru) 2015 yn dangos nad yw'r newidiadau yn debygol o gael unrhyw effaith andwyol ar gystadleuaeth yn y farchnad. Mae'r gwasanaethau maethu a chynllunio gofal yng Nghymru yn cael eu darparu'n bennaf gan awdurdodau lleol a sefydliadau elusennol, ac nid oes gan unrhyw ddarparwr gyfran sylweddol o'r farchnad. Mae'r diwygiadau yn gymwys yn yr un modd i bob darparwr ac nid ydynt yn creu costau na rhwystrau anghymesur i newydd-ddyfodiaid. Nid yw newid technolegol cyflym yn un o nodweddion y sector, ac nid yw'r rheoliadau yn cyfyngu ar allu darparwyr i benderfynu pris, ansawdd, ystod neu leoliad eu gwasanaethau. Yn gyffredinol, disgwylir i'r newidiadau wella cysondeb ac ansawdd heb effeithio ar strwythur neu gystadleurwydd y farchnad.

## 8. Adolygiad ôl-weithredu

8.1 Bydd Adolygiad Ôl-weithredu (PIR) yn cael ei gynnal o fewn tair blynedd i gyflwyno Rheoliadau Paneli Maethu a Chynllunio Gofal (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2026. Bydd yr adolygiad yn asesu a yw'r amcanion polisi wedi'u cyflawni, yn nodi unrhyw ganlyniadau anfwriadol, ac yn llywio datblygiad polisi yn y dyfodol. Bydd yn cwmpasu tri maes allweddol: trosglwyddiadau gofalwyr maeth, diwygio asesiadau o ofalwyr maeth sy'n berthnasau, ac adolygiadau ac ymweliadau hyblyg ar gyfer gofalwyr sy'n berthnasau. Bydd Llywodraeth Cymru yn casglu data meintiol ac ansoddol gan randdeiliaid, gan gynnwys gofalwyr, plant, Swyddogion Adolygu Annibynnol ac awdurdodau lleol. Bydd dangosyddion perfformiad allweddol yn mesur cydymffurfiaeth, effeithlonrwydd, boddhad a chanlyniadau diogelu. Bydd y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol ac Integreiddio yn darparu goruchwyliaeth, a bydd y canfyddiadau yn cael eu defnyddio i lywio diwygiadau yn y dyfodol, diweddaru canllawiau, a rhannu arferion gorau ar draws y sector.